# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 16-12-09

**Presennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd);
Y Cynghorwyr Louise Hughes ac Evie M. Jones

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb); Amlyn ab Iorwerth, (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu), a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

Gwellhad Buan
Dymunwyd adferiad iechyd llwyr a buan i Barbara Owen, Swyddog Pwyllgor, sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty'n ddiweddar.

**Eraill a oedd yn bresennol yn y Cyfarfod:**

**Ymgeisydd:** Mrs Caroline Mynard (perchennog) a Mr Paul Cartwright (ffrind)

**Gwrthwynebwyr:** Y Mri David I. Grayston, Noel Williams a Mrs Katherine Wilson

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alun W. Evans ac Anne Ll. Jones (aelodau lleol)
.

## 1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – FOND MEMORIES GUEST HOUSE, PLAS BACH, FFORDD NEIFION, TYWYN

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar ran Fond Memories Guest House, Plas Bach, Ffordd Neifion, Tywyn am drwydded eiddo i ganiatáu cerddoriaeth wedi ei recordio rhwng 17.00 a 00.00, cyflenwi alcohol rhwng 11.00 a 00.00 gyda'r eiddo'n agored rhwng 08.00 a 00.30 – y cyfan pob dydd o'r flwyddyn.

Adroddodd y swyddog nad oedd gan yr Heddlu na'r Adran Iechyd Amgylchedd wrthwynebiad i'r cais. Nid oedd gan y Gwasanaeth Tân nac Adran Safonau Masnach y Cyngor unrhyw sylwadau. Derbyniwyd sylwadau'r Gwasanaeth Cynllunio yn cadarnhau nad oes gan yr eiddo ganiatâd cynllunio ar gyfer defnydd o'r eiddo fel tŷ gwestai. O ystyried hyn, ni ellir asesu beth fyddai effaith y math hwn o ddefnydd ar fwynderau trigolion y tai cyfagos a'r traffig/parcio. Oherwydd hynny, gwrthwynebir y cais am drwydded ar hyn o bryd. Derbyniwyd llythyrau gan rhai o'r trigolion cyfagos yn nodi eu gwrthwynebiad i fanylion y cais. Dosbarthwyd yn y cyfarfod lythyr gan yr ymgeisydd yn rhoddi eglurhad pellach ar rai agweddau o'r cais a llythyr yn cefnogi'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

1. Cafodd aelodau'r is-bwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

2. Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Rhoddwyd gwahoddiad i bob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

4. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.

5. Cafodd aelodau'r is-bwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

6. Gwahoddwyd cynrychiolydd y Cyngor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

7. Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol i gyd ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol:

- Cerddoriaeth wedi ei recordio – byddai'n cael effaith ar fwynderau trigolion y tai cyfagos a bod llawer o bobl wedi ymddeol yn byw yn yr ardal hon o'r dref.
- Oriau agor – pryder parthed gadael yr eiddo ar agor tan 12.30am – byddai cau'r eiddo am 10.30pm yn fwy derbyniol..
- Alcohol – pryder y byddai sŵn yn dod o'r eiddo yn hwyr yn y nos os y caniateir gwerthu alcohol tan hanner nos. Nodwyd hefyd na ddylid caniatau i'r gwesteion yfed alcohol yn yr ardd.
- Parcio – diffyg darpariaeth parcio'n gysylltiedig â'r eiddo.

Mewn perthynas â'r gerddoriaeth wedi ei recordio, hysbysodd y Swyddog Priodoldeb nad oes angen trwydded os yw'n gerddoriaeth gefndirol yn unig.

Ymatebodd yr ymgeisydd i'r pwyntiau uchod gan nodi -
a) Mai cerddoriaeth gefndirol, trwy ddefnyddio CD's, fyddai'n cael ei ddarparu ar gyfer y gwesteion tra'n bwyta, ac ni fyddai'n amharu ar fwynderau trigolion y tai cyfagos.
b) Y nodwyd 12.30am ar y ffurflen gais fel amser cau'r eiddo oherwydd dathliadau'r Calan. Fel arall y bwriad fyddai gorffen gweini'r bwyd am oddeutu 9.00pm a gorffen gwerthu alcohol am 10.30pm
c) Y cyflenwir yr alcohol i'r gwesteion ac ar gyfer achlysuron preifat yn unig, o fewn yr adeilad yn unig, ac ni chaniateir yfed alcohol yn yr ardd.
ch) Ni ragwelai unrhyw drafferthion parcio gan bod darpariaeth ar gael gerllaw.

Gan nad oedd angen trwydded ar gyfer y gerddoriaeth gefndirol, gofynnodd yr aelodau i'r ymgeisydd a oedd felly'n tynnu ei chais am gael chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio yn ôl. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei bod yn gwneud hynny.

Gadawodd yr ymgeisydd, y swyddogion Trwyddedu a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r cais am drwydded ac ar ôl cymryd i ystyriaeth yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd, ac ystyried yr amcanion trwyddedu, **penderfynwyd caniatau'r drwydded eiddo i'r ystafell fwyta'n unig fel a ganlyn –**
**a) Caniatau cyflenwi alcohol dan baragraff M o 11:00 i 23:00 awr o ddydd Llun i ddydd Sul, ar yr amod bod cyflenwi alcohol yn unig ar gyfer gwesteion gwely a brecwast sy'n aros yn yr eiddo a'r rhai sy'n mynychu achlysuron preifat yno.**

**b) Bod yr eiddo i fod ar agor dan baragraff O o 08.00 awr i 23.30 awr o ddydd Llun i ddydd Sul. I osgoi unrhyw amheuaeth, i'r rhai sy'n mynychu achlysuron preifat mae hyn yn berthnasol ac nid i westai sy'n aros yn yr eiddo.**
**c) Bod lefel y sŵn i'w gadw'n isel wrth adael yr eiddo, gyda rhybuddion boneddigaidd i'w harddangos yn yr eiddo i rybuddio rhai sy'n ymweld neu'n aros yno i fod yn wyliadwrus o'r cymdogion cyfagos.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb yr anfonir llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o ddyfarniad yr Is-bwyllgor, gyda chopi i'r rhai oedd wedi gwneud sylwadau, ac eglurodd y byddai gan unrhyw barti yr hawl i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.30am a daeth i ben am 12.15pm